# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert G Parry OBE (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, G O Jones, R Ll Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cadlywydd Steve Heneghan, Dirprwy Gadlywydd Morol Rhanbarthol Cymru a Gorllewin Lloegr,<br>Mr. David Alexander, Cynrychiolydd y Llyngest Frenhinol ar Ynys Môn. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeffrey M. Evans, Victor Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, Raymond Jones, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas. |

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorydd R.A. Dew ddatganiad o ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3.

### 2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Cyfeiriodd y Cadeirydd at benderfyniad y cyn Gynghorydd Mr. Derlwyn R. Hughes I sefyll i lawr o'i rôl fel Aelod Etholedig fis diwethaf ar ôl derbyn cyngor meddygol. Roedd Mr. Derlwyn Hughes yn cynrychioli Ward Moelfre wedi iddo gael ei ethol yn aelod o'r Cyngor Bwrdeistref yn 1989.

Roedd yn Ddeilydd Portffolio Hamdden ac yn fwy diweddar yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio.

Dywedodd y Cadeirydd fod Mr. Derlwyn R. Hughes yn Aelod Etholedig uchel ei barch a dymunodd yn dda iddo yn y dyfodol.

Atgoffodd y Cadeirydd y Cyngor fod Noson Elusennol y Cadeirydd yn cael ei chynnal yng Ngwesty Breeze Hill, Benllech nos Wener, 24 Mawrth, 2017 am 7.00 pm.

## 3. RHYDDID Y SIR I WASANAETH LLONGAU TANFOR Y LLYNGES FRENHINOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cadlywydd Steve Heneghan, Dirprwy Gadlywydd Morol Rhanbarthol Cymru a Gorllewin Lloegr a Mr. David Alexander, Cynrychiolydd y Llynges Frenhinol ar Ynys Môn.

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â chaniatáu Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol.

Ym mis Rhagfyr 2013, cymeradwywyd y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cyngor Sir:-

"Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn roi Rhyddid y Sir i'r Llynges Brydeinig a Chymdeithas y Llynges Fasnachol. Mae hyn i gydnabod iddynt gadw'n ddiogel y ffyrdd mordwyo a'r fasnach sy'n bodoli rhwng y Deyrnas Gyfunol a gweddill y Byd. Dylid ystyried y seremoni Rhyddfraint hon fel digwyddiad I gofio Rhyfel Mawr 1914-18 a Choffáu 70 o flynyddoedd ers Brwydr Môr Iwerydd."

I ganiatáu Rhyddid y Sir nodwyd bod angen trefnu protocolau a gweithdrefnau ac achlysur seremonïol er mwyn cwrdd â rhai meini prawf penodol. Byddai angen dilyn y gweithdrefnau canlynol:-

Cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor sy'n argymell y dylai'r Cyngor, gan ddefnyddio ei bwerau dan Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyried cynnig Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol. Mae angen mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cyngor i gymeradwyo'r penderfyniad a bydd cynrychiolwyr o'r Llynges Frenhinol yn bresennol yn eu lifrai er mwyn derbyn y cynnig ar ran y Llynges Frenhinol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Aled M. Jones hanes y Llynges Frenhinol a'i chysylltiadau ag arfordir Ynys Môn a Gogledd Cymru. Cyfeiriodd at y Gwasanaeth Llongau Tanfor a'r hanes o weithredoedd arwrol yn ystod y ddau Ryfel Byd. Cyfeiriodd at Mr. William Williams o Amlwch a dderbyniodd y Groes Fictoria am ei ddewrder wrth wasanaethu fel morwr yn y Llynges Frenhinol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cydweithiodd y Llynges Frenhinol a'r Llynges Fasnachol yn llwyddiannus yn ystod Rhyfel y Falklands ym 1982. Chwaraeodd gŵr lleol o Amlwch, yr Is-gapten Keith Mills o'r Forlu Frenhinol, ran allweddol yn yr ymgyrch i amddiffyn De Georgia yn ystod Rhyfel y Falklands.

Dywedodd y Cynghorydd R. Ll. Jones fod gan Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol gysylltiadau cryf â Chaergybi. Cyfeiriodd at achos trasig y llong danfor HMS Thetis a suddodd ger arfordir Ynys Môn yn 1939 gan golli 99 o

fywydau. Roedd urddas pobl Caergybi yn aruthrol a chladdwyd y dynion ifanc mewn seremoni filwrol lawn ym Mynwent Maeshyfryd yng Nghaergybi.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol bod Cyngor Sir Ynys Môn yn caniatáu Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol a bod trefniadau yn cael eu gwneud i gynnal Seremoni Rhyddid y Sir yng Nghaergybi yn ystod penwythnos olaf mis Mehefin 2018.**

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cadlywydd Steve Heneghan i annerch y cyfarfod.

Dywedodd y Cadlywydd Heneghan, ar ran Prif Arglwydd y Morlys a Phennaeth Staff y Morlys yr Arglwydd Lyngesydd Syr Philip Jones KCB ADC, ei bod yn bleser o'r mwyaf ganddo dderbyn y cynnig ffurfiol i ganiatáu Rhyddid Sir Ynys Môn ar ran y Gwasanaeth Llongau Tanfor. Dywedodd bod cysylltiadau'n bodoli rhwng y Llynges Frenhinol ac arfordir Gogledd Cymru, ac yn arbennig Ynys Môn, ers nifer fawr o flynyddoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 o'r gloch y.b.

**Y CYNGHORYDD ROBERT G. PARRY OBE FRAgS**
**CADEIRYDD**